**Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau Conwy / Conwy Community Support Service**

**Cyfeiriad Post / Postal Address:** PO Box 1, CONWY, LL30 9GN,;
**Ymwelwch â ni / Visit us at:** Coed Pella, Conway Road, Colwyn Bay. LL29 7AZ

Gofynnwch am / Please ask for: Elen Edwards
☎ 01492 576670
Elen.edwards@conwy.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: 20/07/2020

Annwyl Syr/ Madam,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch diweddaru am ein gwasanaeth Cymorth Cymunedol Conwy. Mae'r gwasanaeth yma wedi bod ar gael i unrhyw un sydd methu galw ar ffrindiau, teulu neu gymdogion i ofyn am gymorth gyda chasglu siopa, meddyginiaeth ayyb.

Roedd y gwasanaeth ar gael yma yng Nghonwy ganol Mawrth ac mae dros 7,000 o alwadau a mwy na 4,000 o geisiadau wedi eu derbyn hyd yma. Mae'r mwyafrif (78%) o'r rhain ar gyfer presgripsiwn ac o'r rhain, 87% yn geisiadau am bresgripsiwn ailadrodd.

Wrth i'r mesurau clo gael eu llacio yn raddol, rydym wedi gweld lleihad yn y nifer o alwadau yr ydym yn derbyn. Rydym yn adnabod fod y gwasanaeth yma wedi bod yn hanfodol i rai unigolion yn ein cymunedau ond wrth i ni drawsnewid i ail agor ein gwasanaethau mae ein staff sydd wedi cael eu hadleoli angen dychwelyd i'w swyddi arferol o fewn CBSC. Mae nifer y staff yn y Tim Ymateb Cymunedol (TYC) wedi lleihau o 131 ddechrau Mai i 40 (y mwyafrif yn rhan-amser) ac yn parhau i leihau yn ddyddiol wrth i staff gael ei galw yn ôl i wasanaethau.

Rydym wedi eich adnabod fel mudiad a fyddai o bosib yn cyfeirio unigolion at ein gwasanaeth. Wrth i'r gwasanaeth leihau gofynnwn yn garedig felly i chi gyfeirio cleifion/cwsmeriaid sydd mewn gwir angen neu yn cysgodi (shielding) tuag at darpariaeth y Groes Goch (gwybodaeth ynghlwm). Mae'r Groes Goch mewn contract gyda Llywodraeth Cymru i ddanfon Presgripsiynau i'r rhai sy'n cysgodi (shielding) ac felly fe'u sefydlwyd i gyflawni'r ddarpariaeth hon. Mater i'r Fferyllfa yw ymuno â'r cynllun trwy gysylltu â nhw'n uniongyrchol trwy e-bost i Walespharmacysupport@redcross.org.uk. Gall unigolion nad ydynt yn cysgodi ond am ba reswm bynnag na allant godi eu presgripsiynau hefyd gael mynediad i'r Groes Goch yn uniongyrchol.

Mae'r cyhoeddiad clo diwethaf yn rhoi rhyddid pellach i unigolion ac felly teulu, ffrindiau a chymdogion a all bellach hefyd fod mewn safle gwell i helpu.

Rhaid i ni bwysleisio fodd bynnag y bydd ein gwasanaeth yn parhau ar lefel llawer is a byddwn yn asesu anghenion ein cymunedau yn gyson dros y misoedd nesaf. Y bwriad hirdymor yw cynnig gwasanaeth cyfeirio at fudiadau eraill sy'n gallu cynnig cymorth i'r unigolion. Os yw eich mudiad yn darparu unrhyw wasanaeth casglu a danfon presgripsiwn neu siopa gadewch i ni wybod er mwyn cael ei ychwanegu at ein rhestr.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch am eich holl waith gwych dros y cyfnod heriol yma.

Yn gywir,

Cynghorydd Chris Cater
Aelod Cabinet Llywodraethu a Pherfformiad

**Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau Conwy / Conwy Community Support Service**

**Cyfeiriad Post / Postal Address:** PO Box 1, CONWY, LL30 9GN,;
**Ymwelwch â ni / Visit us at:** Coed Pella, Conway Road, Colwyn Bay. LL29 7AZ

Gofynnwch am / Please ask for: Elen Edwards
☎ 01492 576670
Elen.edwards@conwy.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: 20/07/2020

Dear Sir /Madam,

I am writing to update you on our Cymorth Cymunedol Conwy Community Support. This service has been available to anyone within the communities who is not able to call on friends, family or neighbours to ask for help with picking up shopping, delivering medication etc.

The service was available in Conwy mid-March and over 7,000 calls and more than 4,000 requests received to date. The majority (78%) of these requests are for prescriptions and of these, 87% are requests for repeat prescriptions.

As the lockdown measures have gradually eased, we have seen a decrease in the number of calls we receive. We recognise that the service has been crucial for some individuals in our communities but as we transition in to re-opening our services our re-deployed staff need to return to their usual roles within CCBC. The number of people in the Community Response Team (CRT) has reduced from 131 in early May to 40 (most of whom are part-time) and is reducing daily as staff are recalled to services.

We have identified you as an organisation who might be referring individuals to our service. We kindly ask therefore that you refer patients/customers to the Red Cross (information attached). The Red Cross are in contract with Welsh Government to deliver Prescriptions to those that are Shielding and therefore are set up to undertake this provision. It is up to the Pharmacy to join up to the scheme by contacting them direct via e-mail to Walespharmacysupport@redcross.org.uk. Individuals that are not Shielding but for whatever reason cannot pick up their prescriptions can also access the Red Cross direct.

The latest lockdown announcement also gives further freedom for individuals and therefore family, friends or neighbours might now be in a better position to assist.

We must emphasise however that our service will continue at a much-reduced level and we will continually assess the needs of our communities over the coming months. The long-term aim is to offer a signposting service to other organisations who can assist individuals. If your organisations offer any prescription or shopping collection and delivery service, please let us know so we can add you to our list.

May I take this opportunity to thank you for all your work during this challenging time.

Yours faithfully,

Cllr Chris Cater
Cabinet Member for Governance and Performance

**Subject: Summary of Red Cross COVID-19 response**

Re the pharmacy support as discussed, here is the link for you to send to any pharmacy that is in need of support for delivery to people on the shielding list Walespharmacysupport@redcross.org.uk

Below is a summary of the support that Red Cross are offering which you can to circulate to your colleagues.

**Y Groes Goch – Ymateb i Covid 19**

'Rydym yn derbyn cyfeiriadau gan bobl sydd mewn argyfwng sydd wedi cael eu effeithio gan Covid 19, nad ydynt yn derbyn cymorth nac yn disgwyl cymorth o unrhyw le arall. Gallai unrhyw fudiad gyfeirio ac hefyd mae yn bosib hunain-gyfeirio.
'Rydym wedi agor llinell gymorth genedlaethol - 0808 196 3651 - 10.00hrs tan 18.00hr. Mae'r linell hon yn gyfrinachol, yn rhad ac am ddim, a gellir derbyn gwybodaeth eang, rhoi cefnogaeth emosiynol a thrafod gwasanaethau lleol.

I gysylltu a'r Swyddfa yn Ngogledd Cymru cysylltwch a'r y rhif ffôn canlynol:-
01745 828330. Gellir gadael neges, a bydd aelod o staff yn ymated mor fuan a bo modd. (Peiriant ateb yn cael ei fonitro o 9.00hrs tan 17.00hrs o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y cyfnod mae'r staff yn gweithio o gartref).

Gellir hefyd gysylltu ar ebost northwales@redcross.org.uk a mae'n bosib ymweld a redcross.org.uk

'Rydym yn gallu cynnig cefnogaeth eang, e.e siopa, casglu prescriptiwn ayyb. Mae gan y Groes Goch Brydeinig gyflenwad o fwyd a 'rydym yn cynnig galwadau cymorth dros y ffôn a sgyrsiau hybu lles. Mae gennym gronfa i helpu gefnogi pobl sydd wedi cael eu effeithio yn ariannol gan pandemic Covid e.e. arian i roi mewn meter trydan/nwy a chymorth i brynu nwyddau anghenrheidiol.

**Red Cross COVID-19 Response**

We are taking referrals for people in crisis and are affected by COVID-19 who are not receiving support or are waiting for support from elsewhere to begin. Organisations can refer, people can also self-refer.
We have opened a national support line – 0808 196 3651 10.00hrs – 18.00hrs daily Free and Confidential (advice information emotional support, connect to local services)
To contact the North Wales Office
Tel: 01745 828330 Option 2 then leave a message and we will respond ( answer machine is monitored 09.00hrs – 17.00hrs Mon – Fri while we are working from home)
or email: northwales@redross.org.uk or visit redcross.org.uk

We will support practically such as shopping, prescription collection etc. We have a supply of food, We offer regular welfare phone calls / chats, we have a crisis fund

Cofion Caredig / Kind Regards

Karen

Karen Cross
Rheolwr Gweithrediadau Byw yn Annibynnol / Independent Living Operations Manager
Y Groes Goch Brydeinig / British Red Cross

Ffôn: / Tel: 01745 828354
Sym: / Mob: 07834 518 445
ebost: / email: karencross@redcross.org.uk